

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT
TALBOT**

NEATH PORT TALBOT COUNTY BOROUGH COUNCIL

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

**Paratowyd o dan
Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Cynllun Diwygiedig

**Mae'r Cynllun hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith
Gymraeg o dan adran 14 (1) y Ddeddf ar 27fed Gorffennaf 2007.
Mae'n diwygio ac yn disodli'r Cynllun gwreiddiol a gymeradwywyd
ar 10fed Mawrth 1997.**

CYNNWYS

DATGANIAD A PHOLISI'R IAITH GYMRAEG

1 RHAGARWEINIAD

- 1.1 Gwybodaeth Gyffredinol
- 1.2 Iaith a Chydraddoldeb
- 1.3 Cysylltiadau am Fwy o Wybodaeth
- 1.4 Gwybodaeth y Cyfrifiad

2 CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

- 2.1 Polisiau a Mentrau Newydd
- 2.2 Cyflwyno Gwasanaethau
- 2.3 Delio â Sefydliadau Eraill
 - *Caffael*
 - *Partneriaethau*
 - *Dyletswyddau Statudol a Rheoliadol Eraill gan gynnwys Nodyn ar Gyllido a Grantiau*
- 2.4 Gosod y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg

3 CYFATHREBU Â'R CYMRY CYMRAEG

- 3.1 Cyfeirlyfr o Siaradwyr Cymraeg
- 3.2 Gohebiaeth
- 3.3 Cyfathrebu ar y We neu drwy Gyfrwng Electronig arall
- 3.4 Galwadau Ffôn
- 3.5 Cyfarfodydd, Gwrandawriadau ac Ymchwiliadau Cyhoeddus
- 3.6 Cyfarfodydd Eraill gan gynnwys Cyswllt Wyneb yn Wyneb
- 3.7 Cyfarfodydd y Cyngor

4 DELWEDD GORFFORAETHOL A CHYHOEDDUS Y CYNGOR

- 4.1 Gwybodaeth Gyffredinol
- 4.2 Arwyddion
- 4.3 Cyhoeddiadau a Argraffir
- 4.4 Ffurflenni a Deunydd Darllen Cysylltiedig
- 4.5 Gwybodaeth i'r Cyfryngau
- 4.6 Cyhoeddusrwydd, Arddangosiadau ac Arolygon
- 4.7 Hysbysiadau a Hysbysebion Cyhoeddus a Swyddogol

5 GWEITHREDU'R CYNLLUN A MONITRO CYNNYDD

- 5.1 Gwybodaeth Gyffredinol
- 5.2 Staffio
- 5.3 Recriwtio
- 5.4 Hyfforddiant yn y Gymraeg
- 5.5 Hyfforddiant Galwedigaethol yn y Gymraeg
- 5.6 Gweinyddu'r Cynllun
- 5.7 Cyfrifoldebau
- 5.8 Monitro
- 5.9 Ymchwiliadau o dan Adran 17
- 5.10 Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion
- 5.11 Cyhoeddi'r Cynllun
- 5.12 Gwybodaeth am Berfformiad

6 RHOI CYNLLUNIAU GWEITHREDU AR WAITH AC AMSERLEN

- 6.1 Rhoi'r Cynlluniau Gweithredu ar waith

Datganiad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, o fewn cyfyngiadau adnoddau ariannol a dynol y Cyngor, yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Polisi'r Iaith Gymraeg

Bydd Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn:

- Cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith yr hoffent ei defnyddio wrth ddelio â'r Cyngor
- Cydnabod bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith.
- Cydnabod mai arfer da yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith, nid consesiwn.
- Cydnabod y gallai'r cyhoedd fod o dan gryn anfantais wrth iddynt gael eu hatal rhag defnyddio eu dewis iaith.
- Cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor a'r Bwrdd Craffu Polisi ac Adnoddau
- Fel a nodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cyngor, bydd y Cyngor yn sicrhau bod effaith gwasanaethau, polisiâu a mentrau ar y Gymraeg a'r Saesneg yn cael ei hasesu ynghyd â chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg. Ystyrir hefyd sut gall y Cyngor gyfrannu at gyflawni Iaith Pawb.

Iaith Pawb yw cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog, gan amlinellu beth fydd y Cynulliad yn ei wneud i gyflawni ei nodau a pha gefnogaeth mae'n ei ddisgwyl gan ei bartneriaid. Felly, ynghyd â darparu cynlluniau iaith Gymraeg, mae Iaith Pawb yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol brif ffrydio materion iaith Gymraeg i bob agwedd ar eu gwaith. Cyfeirir yn benodol at lywodraeth leol, o ran fframweithiau adfywio is-ranbarthol, llunio polisiâu cynllunio lleol a

phenderfyniadau cynllunio, polisïau dyrannu tai cymdeithasol, strategaethau tai lleol a'r ddarpariaeth addysg.

1. RHAGARWEINIAD

1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

1.1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i 134,468 o drigolion (Ffigurau Cyfrifiad 2001). Mae'r Cyngor yn cyflogi dros 7,500 o weithwyr ac mae ganddo 64 aelod etholedig, sy'n cynrychioli 42 adran etholiadol.

1.1.2 Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys ardal o 44,217 hectar. Gan godi o lefel y môr yn y gorllewin i 600 metr yng Nghraig y Llyn, uwchben Glyn-nedd, ucheldir yw'r Fwrdeistref Sirol yn bennaf wedi'i ddyrannu gan gymoedd afonydd Afan, Nedd, Dulais a Thawe, sydd oll yn llifo i'r môr ym Mae Abertawe. Caiff y cymoedd hyn eu gwahanu gan gribau bryniau o goedwigoedd uchel neu rostiroedd. Mae arfordir cul yn ymestyn o amgylch Bae Abertawe, lle mae'r prif ganolfannau poblogaeth ac economaidd. Mae'r cymoedd o amgylch yn wledig gyda chymunedau gwasgaredig, y mae gan lawer ohonynt niferoedd sylweddol o siaradwyr Cymraeg o hyd.

1.1.3 I adlewyrchu amrywiaeth daearyddol y Fwrdeistref Sirol, mae gan y Cyngor dair prif swyddfa ddinesig wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd, Penllergaer a Phort Talbot. Fodd bynnag, bydd gweithwyr ym Mhenllergaer yn trosglwyddo i swyddfeydd newydd maes o law sy'n cael eu datblygu yn Llansawel. Mae Siopau Dan yr Unto ym Mhontardawe ac yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd a chynigir agor Siop Dan yr Unto yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot hefyd.

1.1.4 Mae'r Cyngor yn darparu amrediad cynhwysfawr o wasanaethau drwy bum cyfarwyddiaeth. Maent fel a ganlyn:

Prif Weithredwr
Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Yr Amgylchedd
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai

1.1.5 Mae'r llinell gymorth Gwasanaethau'n Gyntaf yn trin galwadau ynghylch llifogydd, gwastraff, ailgylchu, casglu mewn swmp, taflu gwastraff yn

anghyfreithlon a goleuadau stryd. Mae'r Llinell Gymorth Tai yn trin galwadau ynghylch atgyweirio tai'r cyngor. At hynny, ceir llinell ffôn Gymraeg benodol (01639 763329) ac yn y dyfodol bwriedir cynnwys canolfan alwadau yn y swyddfeydd newydd yn Llansawel.

- 1.1.6 Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Hamdden Cymunedol Celtic ym mis Ebrill 2003 fel sefydliad "nid er elw", Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli naw cyfleuster hamdden ar ran y Cyngor, sydd wedi'u gwasgaru ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- 1.1.7 Mae'r Cyngor eisoes yn chwarae rôl ragweithiol yn natblygiad yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Un modd o wneud hyn yw trwy hybu cynrychiadau a digwyddiadau yn y Gymraeg yn ei theatrau. Mae Theatr Cwmtawe ym Mhontardawe yn cynnwys elfen Gymraeg arbennig o amlwg yn ei stoc. Drwy ei Wasanaeth Dysgu Gydol Oes a'i ganolfannau cymunedol mae'r Cyngor wedi dangos ei ymrwymiad i'r Gymraeg ym maes dysgu Cymraeg i oedolion hefyd. Mae'r Rhwydwaith Dysgu Newydd a ariennir gan Amcan 1, gyda'i ganolfannau gweithredu lleol, wedi'i gwneud yn haws i drigolion hygyrchu llawer o gyrсияu, gan gynnwys cyrsiau Cymraeg.
- 1.1.8 Y mae holl ysgolion y Fwrdeistref Sirol yn dysgu Cymraeg neu Gymraeg fel Ail Iaith fel pwnc Cwricwlwm Cenedlaethol. O fewn ei ffiniau, mae'r Cyngor yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy chwe ysgol gynradd Gymraeg, saith ysgol gynradd Gymraeg draddodiadol ac ysgol gyfun Gymraeg. Mae'r Cyngor a Dinas a Sir Abertawe yn ariannu gwasanaeth iaith Gymraeg ar y cyd yn Ysgol Gynradd San Helen yn Abertawe, sy'n cyflogi tîm o athrawon ymgynghorol, sy'n helpu i gefnogi addysgu Cymraeg mewn ysgolion. Mae'r Ganolfan Iaith yn Ystalyfera hefyd yn galluogi disgyblion i ymuno â chwrs Cymraeg carlam.
- 1.1.9 Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i baratoi Cynllun Addysg Gymraeg a gellir derbyn hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.
- 1.1.10 Fel rhan o rôl ehangach y Cyngor o arwain y gymuned, mae'n gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Cymunedol trosgynnol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae'r cynllun partneriaeth allweddol hwn, sy'n amlinellu gweledigaeth a rennir ar gyfer cyfnod o ddeng mlynedd, yn gofyn am gyfranogiad ac ymrwymiad pob dinesydd a sefydliadau partner os yw am wneud gwahaniaeth. Mae dros 150 o sefydliadau partner yn cefnogi'r Cynllun, sy'n cynnwys y nod o "fynd ati'n rhagweithiol i

feithrin, cynnal a datblygu ymhellach yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth o fewn cymunedau."

1.2 Iaith a Chydraddoldeb

- 1.2.1 Mae iaith wedi dod yn rhan o'r agenda cydraddoldeb ehangach oherwydd cydnabyddir bod gwahaniaethu ar sail iaith yr un mor annerbyniol ag unrhyw ffurf arall ar wahaniaethu.
- 1.2.2 O ran cydraddoldeb, mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu:
- Mynediad cyfartal i'w holl wasanaethau ar gyfer cymunedau Castell-nedd Port Talbot ar sail angen; a
 - Gwasanaethau mewn modd sy'n sensitif i anghenion yr unigolyn beth bynnag y bo'u cefndir, i'r graddau y bo hynny'n bosib.
- 1.2.3 Mae gan y Cyngor safle unigryw a dylanwadol o fewn y gymuned, fel un o'r prif gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae'n cydnabod y gall gyfrannu at ddatblygu cymunedau cynhwysol a hyderus drwy wneud ei wasanaethau a'i swyddi'n hygyrch i bawb. Mae'r Gymraeg yn un o bedwar llinyn Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol yng Nghymru ac mae Cytundeb Polisi'r Cyngor gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys ymrwymiad i fodloni Lefel 2 a thu hwnt i'r Safon erbyn 2007.
- 1.2.4 Ym mis Mai 2005 cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg daflen ar gyfer cyrff cyhoeddus gyda'r teitl "Deg Her i Gymru - Yr Iaith Gymraeg fel Rhan o'r Maes Cyfle Cyfartal" fel rhan o'i broses barhaus o sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio ynghyd â materion cydraddoldeb eraill yng ngwaith cyrff cyhoeddus. Ar lefel ryngwladol, cadarnhawyd Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol gan Lywodraeth Prydain ar 27ain Mawrth 2001, gan sicrhau lefel arall o gydnabyddiaeth i'r Gymraeg fel iaith a siaredir yn y DU.
- 1.2.5 Mae dewis iaith, yn enwedig mewn perthynas â phlant, yn destun confensiynau Hawliau Dynol amrywiol y CU. Mae gan yr holl awdurdodau cyhoeddus rwymedigaeth gadarnhaol i sicrhau bod parch tuag at hawliau dynol wrth wraidd eu gwaith beunyddiol. Mae hyn yn golygu ymddwyn mewn ffyrdd sydd yn atgyfnerthu egwyddorion Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gadarnhaol.

1.3 Cysylltiadau am Fwy o Wybodaeth

1.3.1 Gellir cael mwy o wybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan:

Y Tîm Strategaethau Corfforaethol
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

Ffôn: 01639 763173

1.3.2 Mae'r Cynllun ar gael ar wefan y Cyngor www.npt.gov.uk. Os hoffech gopi caled neu os hoffech yr wybodaeth hon mewn print mwy, mewn Braille, ar dâp neu ar ddisg, ffoniwch y Tîm Strategaethau Corfforaethol.

1.4 Gwybodaeth y Cyfrifiad

1.4.1 Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn gwasanaethu poblogaeth o 134,468 ac mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg fel a ganlyn:

Canran y boblogaeth a'r niferoedd sydd :-	%	Nifer
Yn deall Cymraeg llafar yn unig	6.5%	8,490
Yn siarad, ond nid yn darllen/ysgrifennu Cymraeg	3.3%	4,252
Yn siarad ac yn darllen, ond nid yn ysgrifennu Cymraeg	1.7%	2,207
Yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg	12.8%	16,723
Cyfanswm sydd â gwybodaeth o'r Gymraeg hyd at unrhyw allu	28.8%	37,551

1.4.2 Mae'r setliadau sydd o fewn ardaloedd cymoedd Tawe, Dulais, Nedd, Afan ac Aman, yn parhau'n gadarnleoedd y Gymraeg.

2. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

2.1 Polisiâu a Mentrau Newydd

- 2.1.1 Bydd y Cyngor yn cyflwyno polisiâu a mentrau newydd yn rheolaidd wrth iddo ymateb i ddeddfwriaeth neu ei raglen arloesol ei hun.
- 2.1.2 Pan fydd hyn yn digwydd bydd y Cyngor yn ymrwymo i ganfod eu heffaith ar y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae polisiâu a swyddogaethau newydd yn cael eu hasesu ar draws ystod o faterion trawsbynciol, sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg a themâu'r Cynllun Cymunedol. Mae'r dull asesu hwn - arfarnu cynladwyedd adroddiadau gweithredol - yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn treialu Fframwaith Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, sydd wedi nodi bylchau mewn gwybodaeth a systemau monitro. Fodd bynnag, y nod yw datblygu'r fframwaith fel ei fod yn ymdrin â'r holl agweddau ar gydraddoldeb, gan gynnwys yr iaith Gymraeg.
- 2.1.3 Mae'r Cyngor hefyd yn sicrhau bod yn Cynllun yn cael ei brif ffrydio i fframwaith rheoli perfformiad ehangach y Cyngor oherwydd bod ei arweiniad i fframwaith cynllunio busnes yn gofyn bod rheolwyr yn ymdrin â materion cydraddoldeb, gan gynnwys gofynion iaith, yn eu cynlluniau busnes sy'n destun craffu.
- 2.1.4 Bydd polisiâu a mentrau newydd yn cydymffurfio ag ymrwymadau'r Cynllun a chredir y byddant, mewn nifer o achosion, yn darparu mwy o gyfleoedd i hybu'r iaith Gymraeg.
- 2.1.5 Mae'r Cyngor yn adolygu hyfforddiant cydraddoldeb gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Y nod yw ystyried amrywiaeth o fethodoleg a chyrsiau hyfforddi nid yn unig i ddatblygu gweithwyr ac aelodau etholedig, ond hefyd i wella ein gallu i hyfforddi'n fewnol. I ddechrau, bydd yr hyfforddiant yn helpu uwch reolwyr i ddatblygu gwell dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb a'u paratoi ar gyfer cyflawni asesiadau effaith ar gydraddoldeb.
- 2.1.6 Cyfeirir y rheiny sy'n gyfrifol am lunio a chyflwyno unrhyw bolisi newydd at y Cynllun hwn a goblygiadau Deddf yr Iaith Gymraeg.

2.2 Cyflwyno Gwasanaethau

- 2.2.1 Yn ogystal â bod yn gynhwysfawr, rhennir y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn ddau gategori. Mae rhai gwasanaethau yn statudol yn ofynnol tra darperir eraill drwy hawliau dewisol y Cyngor. Darparu gwasanaethau yw cyfrifoldeb y cyfarwyddiaethau a restrir yn rhagarweiniad y ddogfen hon. Mae pob cyfarwyddiaeth yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n galw am gefnogaeth broffesiynol, gweinyddol a thechnegol gref ac mae'r cyfarwyddiaethau sy'n darparu hyn yn aml yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd.
- 2.2.2 Darperir gwasanaethau mewn sawl ffordd. Darperir rhai yn ganolog o dair prif ganolfan ddinesig tra bod eraill yn cael eu darparu o leoliadau allanol megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chartrefi preswyl. Darperir eraill gan asiantaethau allanol neu gontractwyr.
- 2.2.3 Bwriad y Cyngor yw darparu gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg o fewn pob cyfarwyddiaeth. Yn ei thro, bydd pob cyfarwyddiaeth yn archwilio'r ffordd orau o ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg boed yn ganolog, yn lleol neu o rywle arall er mwyn bodloni gofynion y Cynllun.

Gellir cyflawni hyn drwy:

- Sefydlu tîm arwahanol o fewn y gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg
- Sefydlu tîm arbenigol i gefnogi'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd
- Sicrhau bod y tîm sy'n darparu'r gwasanaeth yn trefnu bod gweithwyr Cymraeg yn delio ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg
- Sicrhau bod gweithwyr sy'n siarad Cymraeg mewn un swyddfa ardal ar gael i gynorthwyo swyddfa arall fel y bo angen
- Rhannu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus cyfagos
- Mabwysiadu arferion gwaith neu systemau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn yr iaith a ddewisir gan y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gymuned
- Cyflogi cyfieithwyr proffesiynol allanol

2.3 Delio â Sefydliadau Eraill

Caffael

- 2.3.1 Mae Llywodraeth Leol yn darparu llawer o'i gwasanaethau drwy gontractwyr, asiantaethau, ymgynghorwyr a chyrff gwirfoddol. Disgwylir i'r sefydliadau hynny gydymffurfio â'r Cynllun hwn o ran y gwasanaethau a ddarperir ganddynt i'r cyhoedd ar ran y Cyngor. Mae hyn yn wir hefyd os yw'r sefydliad sy'n ennill y cytundeb yn is-gontractio neu'n trosglwyddo'r gwasanaeth cyfan neu ran ohono i is-gontractwyr.
- 2.3.2 Y ffordd arferol o ddelio â chontractwyr a chynrychiolwyr fydd sicrhau bod y Cynllun hwn a'i ofynion yn cael eu hystyried. I'r diben hwn bydd gweithwyr yn cael eu hysbysu am ofynion y Cynllun.
- 2.3.3 Bydd pob dogfen, tendr, contract, cytundeb ynghyd ag amodau grantiau a benthyciadau yn cynnwys trefniadau i ddarparu'r gwasanaethau yn ôl y Cynllun hwn. Lle bo gwasanaethau'n galw am gysylltu â'r cyhoedd, gofynnir i gynrychiolwyr neu gontractwyr ddatgan sut y bydd y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu yn Gymraeg.
- 2.3.4 Bydd yn ofynnol i asiantau neu gontractwyr fonitro eu perfformiad yn unol â'r Cynllun. Bydd trefniadau monitro'r Cyngor ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cael eu diwygio i gynnwys perfformiad yr asiant neu'r contractwr, o dan y Cynllun.

Partneriaethau

- 2.3.5 Mae gweithio mewn Partneriaeth yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol i gyflwyno rhai o wasanaethau penodol y Cyngor.
- 2.3.6 Lle bydd y Cyngor yn gorff arweiniol ar gyfer partneriaeth ffurfiol, bydd yn sicrhau bod unrhyw wasanaethau i'r cyhoedd a ddarperir gan y bartneriaeth, yn cael eu cyflwyno yn unol â'i Gynllun ei hun.
- 2.3.7 Lle bydd y Cyngor yn ymuno â phartneriaeth a gaiff ei harwain gan gorff arall, bydd mewnbwn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cael ei roi yn unol â'r cynllun a fabwysiedir gan y bartneriaeth honno. Os na fabwysiadwyd cynllun, bydd y Cyngor yn annog y partneriaid eraill i fabwysiadu ei Gynllun ei hun ar gyfer y bartneriaeth honno, neu Gynllun sefydliad arall o fewn y bartneriaeth, er mwyn sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu bodloni.

- 2.3.8 Lle mae'r Cyngor yn gweithio fel rhan o gonsortiw, bydd yn annog y consortiw i fabwysiadu cynllun iaith Gymraeg ei hun neu gytuno i gydymffurfio â chynllun un o aelodau'r consortiw. Bydd y Cyngor hefyd yn annog partneriaid eraill i gydymffurfio yn yr un modd.
- 2.3.9 Pan fydd y Cyngor yn ffurfio neu'n ymuno â phartneriaeth, bydd yn gofyn i bartneriaid posib am gopi o'u cynllun iaith, eu polisi iaith neu ddisgrifiad o sut maent yn bwriadu gweithio'n ddwyieithog. Gydag unrhyw bartneriaeth, bydd y Cyngor yn cynnig cyngor a chefnogaeth i sefydliadau partner eraill.

Dyletswyddau Statudol a Rheoliadol Eraill

- 2.3.10 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddyletswyddau statudol a swyddogaethau eraill sy'n rheoli darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Maent yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau a chyrff eraill. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys trwyddedu cartrefi preswyl, cylchoedd chwarae, trwyddedau a hawliau adloniant, loteriau, casgliadau stryd, marchnadoedd, masnach stryd yn ogystal â materion cynllunio.
- 2.3.11 Bydd y Cyngor yn annog y rheiny y mae yn delio â nhw yn y materion hyn i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a chyflwyno dwyieithrwydd. Gofynnir iddynt wneud hyn drwy:
- Ddatgan hyn mewn ffurflenni cais a ddsberthir i'r cyhoedd.
 - Eu hysbysu bod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg ac yn ei weithredu.
 - Darparu, yn ôl y galw, unrhyw wybodaeth a chyngor sy'n hysbys i'r Cyngor sy'n berthnasol i'r materion hyn.

Nodyn ar gyllido a grantiau:

- (a) Bydd yr egwyddorion uchod yn berthnasol hefyd i geisiadau am gyllid a dderbynnir gan y Cyngor.
- (b) Lle y mae'r Awdurdod yn ariannu gwaith sy'n darparu gwasanaethau ar ei ran ac a fyddai fel arall yn cael eu cyflawni gan yr Awdurdod, bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu fel yn Adran 2.3. Ym mhob achos arall anogir pob ymgeisydd am gyllid i lynu at yr egwyddorion a ddisgrifir yn yr adran hon.

2.4 Gosod y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg

- 2.4.1 Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau o'r un ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg ac yn sicrhau bod safon gyson a chyfartal yn cael ei chynnal yn y ddwy iaith ar draws ei holl swyddogaethau. Bydd yr amcan hwnnw yn cael ei ddatgan ym mhob un o brif ddogfennau polisi'r Cyngor a bydd yn cael ei ystyried wrth fonitro a chraffu ar ei weithgareddau.
- 2.4.2 Un ffactor pwysig o ran sefydlu safonau yw sicrhau y gall gwasanaethau gael eu darparu gan swyddogion sydd â gallu derbyniol yn y Gymraeg. Bydd eu dyletswyddau yn cael eu hatgyfnerthu gan ddogfennau, deunyddiau a hyfforddiant o ansawdd da.
- 2.4.3 Mae'r un mor bwysig bod y Cyngor yn sicrhau bod ganddo ddigon o swyddogion cymwys Cymraeg eu hiaith yn yr ardaloedd Cymraeg o fewn ei ffiniau, i ddiwallu'r galw gan y cyhoedd. Bydd cyfarwyddiaethau yn gyfrifol am adolygu'r sefyllfa staffio'n gyson i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn yr ardaloedd hynny.
- 2.4.4 Ni fydd y Cyngor yn newid y Cynllun hwn heb dderbyn cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a bydd yn ymgynghori â'r Bwrdd ar unrhyw gynigion a fyddai 'n effeithio ar y Cynllun.
- 2.4.5 Bydd cwynion gan y cyhoedd yn cael eu trin yn unol â gweithdrefn gwynion gorfforaethol y Cyngor.
- 2.4.6 Mae'r Cyngor hwn a Dinas a Sir Abertawe yn ariannu gwasanaeth iaith Gymraeg ar y cyd yn Ysgol Gynradd San Helen yn Abertawe, sy'n cyflogi tîm o athrawon ymgynghorol, sy'n helpu i gefnogi addysgu Cymraeg mewn ysgolion, ynghyd â nifer o gyfieithwyr. Mae'r Uned Gyfieithu fewnol hon yn helpu i sicrhau cyfieithiadau testunau Cymraeg o safon uchel a'i bod yn cael eu prawfddarllen. Y safon ansawdd ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg yw arholiad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r aelodaeth a geir ar ôl llwyddo. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i gyflawni'r safon hon drwy sicrhau bod ei gyfieithwyr naill ai eisoes yn aelodau, neu'n gweithio i sefyll yr arholiadau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.
- 2.4.7 Ar adegau bydd yn angenrheidiol defnyddio cyfieithwyr allanol a phryd hynny dim ond cyfieithwyr proffesiynol allanol sydd wedi cyrraedd safon debyg neu sydd wedi dangos gwaith cyfieithu o ansawdd uchel byddwn yn eu contractio i gyflawni gwaith cyfieithu ar ran y Cyngor.

- 2.4.8 Caiff cyrsiau iaith Gymraeg y Cyngor eu trefnu gan Gydlynnydd Datblygu Rheoli. Darperir y tiwtoriaid amrywiol gan Goleg Castell-nedd Port Talbot, a gaiff eu hasesu yn ôl gweithdrefnau asesu'r Coleg ei hun.
- 2.4.9 O bryd i'w gilydd holir Panel Dinasyddion y Cyngor, sy'n gynrychiadol o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol, ynghylch eu profiad o ddelio â'r Cyngor drwy'r Gymraeg, er mwyn canfod lefelau boddhad y panelwyr â safon y gwasanaeth.

3. CYFATHREBU Â'R CYMRY CYMRAEG

3.1 Cyfeirlyfr o Siaradwyr Cymraeg

- 3.1.1 Ar y mewnwyd ceir Cyfeirlyfr o Siaradwyr Cymraeg, sy'n rhestru gweithwyr y Cyngor sy'n barod i weithredu fel hwyluswyr rhwng gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd sydd am siarad yn Gymraeg. At hynny, ceir Cyfeirlyfr Cyhoeddus ar gyfer Gohebu'n Gymraeg ar y mewnwyd, sy'n rhestru aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau sydd naill ai wedi ysgrifennu at y Cyngor yn Gymraeg a/neu wedi cadarnhau bod yn well ganddynt dderbyn gohebiaeth ac unrhyw ddogfennau eraill gan y Cyngor yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

3.2 Gohebiaeth

- 3.2.1 Cydnabyddir llythyron Cymraeg a dderbyniwyd gan y Cyngor yn Gymraeg. Pan fo angen ymateb ychwanegol anfonir ymateb arall yn Gymraeg.
- 3.2.2 Bydd llythyron a ysgrifennwyd at y Cyngor yn Gymraeg yn cael eu cydnabod o fewn yr un amser penodedig â llythyron Saesneg.
- 3.2.3 Pan fo angen llythyr ar ôl cyfweiliad, galwad ffôn neu gyfarfod fe'i ysgrifennir yn Gymraeg os bydd y gohebwr yn dymuno.
- 3.2.4 Pan fo'r Cyngor yn ymwybodol bod unigolyn, grŵp neu sefydliad fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg neu byddai'n well ganddynt ei defnyddio, bydd y Cyngor yn cyfathrebu â nhw yn yr iaith honno.
- 3.2.5 Wrth ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, cynhyrchir cylchlythyrau a llythyrau safonol dwyieithog i'r cyhoedd.

3.2.6 Ysgrifennir y datganiad ‘croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg’ ar bapur pennawd y Cyngor.

3.2.7 Gellir cynnwys manylion unigolion, grwpiau neu sefydliadau y gwyddys bod yn well ganddynt ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfeirlyfr Cyhoeddus o Ohebwy'r Cymraeg, sydd ar gael ar y mewnrwyd.

3.3 Cyfathrebu ar y We neu drwy Gyfrwng Electronig arall

3.3.1 Mae'r egwyddorion uchod yn gymwys wrth ohebu'n electronig gydag aelodau o'r cyhoedd. Felly ymatebir unrhyw e-bost neu ffurflenni ar y rhyngrwyd, ffacsiau, negeseuon testun ffonau symudol, fideo gynadleda, systemau cyfarch y cyhoedd neu systemau cyfathrebu electronig eraill, yn iaith y neges wreiddiol. Bydd unrhyw ddulliau o gyfathrebu â chwsmeriaid ar y we neu'n electronig yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Yn ogystal, bydd yr ymwadiadau sy'n cael eu cynnwys gydag e-byst y Cyngor yn ddwyieithog.

3.3.2 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei wefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â darpariaethau'r Cynllun hwn a bod defnyddwyr yn gallu defnyddio eu dewis iaith yn hawdd. Ar brydiau bydd oedi byr anochel am gyfieithiad Cymraeg o wybodaeth y mae ei hangen ar frys i'w rhoi ar y wefan. Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod fersiynau Cymraeg a Saesneg yr wybodaeth ar gael ar yr un pryd ar y wefan.

3.3.3 Bydd dogfennau megis adroddiadau pwyllgorau, cyfansoddiad y Cyngor a datganiadau cyfrifon ar gael ar y wefan yn Saesneg yn unig.

3.4 Galwadau Ffôn

3.4.1 Mae'r Cyngor yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg a hysbysir y cyhoedd am hyn. Mae'r Cynllun hwn a chanllawiau perthynol yn annog gweithwyr i ateb galwadau ffôn uniongyrchol gyda chyfarchiad dwyieithog.

3.4.2 Mae Llinell Ffôn Gymraeg wedi cael ei sefydlu i'r rheiny sy'n dymuno cynnal eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg, ac fe'i hysbysebiri yng Nghyfeirlyfr BT a llyfryn A-Z: Gwasanaethau Cyhoeddus y Cyngor a gaiff ei ddsbarthu i holl drigolion y Fwrdeistref Sirol. Y rhif ffôn yw 01639 763329.

- 3.4.3 Bydd gweithwyr y prif switsfwrdd yn ateb pob galwad gyda chyfarchiad dwyieithog megis “Bore da, Good Morning”/“Prynhawn da, Good Afternoon”. Os bydd y galwr yn parhau â’r sgwrs yn Gymraeg, bydd y teleffonydd yn trosglwyddo’r alwad honno i’r llinell ffôn Gymraeg.
- 3.4.4 Trosglwyddir y rheiny sy’n dymuno parhau yn Gymraeg i siaradwr Cymraeg. Mae Cyfeirlyfr o Siaradwyr Cymraeg ar gael ar y mewnwyd.
- 3.4.5 Os nad yw’r siaradwr Cymraeg sy’n gallu delio â’r ymholiad ar gael rhoddir dewis i’r galwr gael ei ffonio yn ôl gan siaradwr Cymraeg neu barhau â’r drafodaeth yn Saesneg.
- 3.4.6 Anogir pob gweithiwr i ateb galwadau allanol yn ddwyieithog.
- 3.4.7 Bydd pob neges ar beiriant ateb yn ddwyieithog. Yn achos negeseuon hir neu’r rheiny y mae eu cynnwys yn amrywio’n aml, cytunir ar neges ddwyieithog safonol i’w defnyddio.

3.5. Cyfarfodydd, Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau Cyhoeddus

- 3.5.1 Ym mhob cyfarfod swyddogol o’r math hwn a drefnir gan y Cyngor, bydd croeso i’r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu’n Saesneg. Er mwyn trefnu hyn bydd y Cyngor yn cymryd y camau canlynol:
- 3.5.2 Pan fo cyfarfodydd o’r fath yn cael eu hysbysebu byddant yn datgan yn glir bod gan y rheiny sy’n eu mynychu yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg, y caiff eu hawl ei barchu, a chynigir y dewis hwn iddynt.
- 3.5.3 Bydd dewis iaith y rheiny sy’n mynychu’r cyfarfod yn cael ei sefydlu drwy estyn gwahoddiad iddynt ddatgan eu bwriad ymlaen llaw.
- 3.5.4 Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y bydd gweithwyr sy’n siarad Cymraeg yn mynychu cyfarfodydd i gynorthwyo aelodau’r cyhoedd. Fe’u hadwaenir drwy wisgo bathodynnau Siaradwr Cymraeg.
- 3.5.5 Pan fo’r Cyngor yn trefnu cyfarfodydd gyda sefydliadau sy’n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg neu darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
- 3.5.6 Bydd gweithwyr sy’n gyfrifol am drefnu cyfarfodydd cyhoeddus yn penderfynu a oes angen cyfleusterau cyfieithu ar y pryd neu arall, gan ddibynnu ar bwnc neu ddiben y cyfarfod, ei leoliad, y rheiny sy’n debygol o fynychu ac unrhyw rybudd ymlaen llaw o ddewis iaith. Wrth wneud

penderfyniadau o'r fath, mae angen i weithwyr ystyried y meini prawf a gynhwysir yn yr adran hon, gan gynnwys y canllaw y cyfeirir ato yn 3.5.9. Mae rhagor o gyngor ar gael gan y Tîm Strategaethau Corfforaethol.

3.5.7 Cydnabyddir bod hawliau statudol penodol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol yn bodoli yng Nghymru ar gyfer ymchwiliadau cynllunio, tribiwnlysoedd ac ati. Pan fo'r Cyngor yn trefnu neu'n hwyluso digwyddiadau fel hyn, bydd yn gwneud hynny yn unol â'r Cynllun.

3.5.8 O fewn cymunedau lle y mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg bydd Siaradwr Cymraeg/offer cyfieithu ar gael bob amser. Bydd y cymunedau a leolir yn yr Adrannau Etholiadol isod yn rhan o'r ddarpariaeth hon: -

Cwmllynfell, Gwauncaegurwen, Brynaman Isaf, Ystalyfera.

3.5.9 Am fanylion ynghylch yr hyn i'w ystyried wrth drefnu cyfarfodydd cyhoeddus, gan gynnwys anghenion cyfieithu a dehongli, dylid ystyried "A Good Practice Guide for Managers, Organising Accessible Meetings/Seminars/Conferences".

Mae'r arweiniad hwn ar gael ar y mewnwyd.

3.6 Cyfarfodydd Eraill gan gynnwys Cyswllt Wyneb yn Wyneb

3.6.1 Wrth ei waith, mae'r Cyngor yn trefnu cyfarfodydd gydag aelodau unigol o'r cyhoedd, grwpiau a sefydliadau. Gall y rhain fod yn ymweliadau personol â swyddfeydd a manau gweithio'r Cyngor, yn gyfweiliadau preifat, yn gyfarfodydd grŵp ac yn ymweliadau safle. Yn aml iawn mae swyddogion a gweithwyr hefyd yn ymweld â phobl yn eu cartrefi. I sicrhau na fydd unrhyw anfantais i bobl sy'n dymuno siarad Cymraeg ar adegau fel hyn bydd y Cyngor yn gweithredu yn ôl adrannau 3.6.2 i 3.6.6.

3.6.2 Bydd y Cyngor yn cynnig dewis iaith i aelodau o'r cyhoedd. Ar adeg y cyswllt cyntaf bydd dewis iaith yn cael ei sefydlu naill ai gan aelod o'r cyhoedd neu'r Cyngor, wedyn trosglwyddir yr wybodaeth hon i adrannau eraill y Cyngor lle y bo angen er mwyn iddynt weithredu arni. Os Cymraeg yw'r dewis iaith, bydd y Cyngor yn trefnu bod swyddog sy'n siarad Cymraeg yn bresennol neu bod cyfleusterau cyfieithu/dehongli ar gael. Os nad yw hyn yn bosibl bydd swyddog sy'n siarad Cymraeg yn cysylltu â nhw cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn cael ei fonitro i sicrhau bod y gwasanaeth yn foddhaol.

- 3.6.3 Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gweithwyr Cymraeg ar gael i drafod busnes yn Gymraeg yn swyddfeydd y Cyngor sy'n derbyn ymweliadau cyson gan y cyhoedd.
- 3.6.4 Mewn swyddfeydd neu fannau gweithio eraill bydd y Cyngor yn sicrhau naill ai bod Siaradwr Cymraeg ar gael neu ei bod yn bosibl cwrdd â'r galw i cynnal cyfarfod yn y Gymraeg ar gais.
- 3.6.5 Gwneir pob ymdrech i drefnu timau gwaith sy'n cynnwys gweithiwr sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn y tymor hir, bydd gweithredu strategaeth sgiliau ieithyddol yn helpu i sicrhau bod nifer digonol o weithwyr ddwyieithog ar gael i gynorthwyo gweithwyr eraill, yn enwedig y rheiny sy'n gweithio mewn derbynfeydd, y Siopau Dan yr Unto, y ganolfan alwadau arfaethedig a'r rheiny sy'n ymateb i ymholiadau'r llinell gymorth.
- 3.6.6 Gwneir yr un trefniadau ar gyfer cyfarfodydd grŵp ag y gwneir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus uchod.

3.7 Cyfarfodydd y Cyngor

- 3.7.1 Mae Rheolau Sefydlog y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod yr un statws a dilysrwydd i'r Gymraeg a'r Saesneg yn holl fusnes y Cyngor, a bydd angen gwneud trefniadau priodol ymlaen llaw i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.
- 3.7.2 Darperir agendâu, adroddiadau a chofnodion yn ddwyieithog lle bo'r Cyngor yn ystyried bod hynny'n briodol.

4. DELWEDD GORFFORAETHOL A CHYHOEDDUS Y CYNGOR

4.1 Gwybodaeth Gyffredinol

- 4.1.1 Mae'r Cyngor wedi sefydlu delwedd gorfforaethol ddwyieithog sy'n adlewyrchu natur yr ardal a'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. Ystyrir y ddelwedd hon yn fanwl o fewn yr Arweiniad Arddull Corfforaethol, sydd ar gael ar y mewnwyd ac mae Llyfryn Cyfathrebu Corfforaethol yn cael ei ddatblygu hefyd. Mae'r ddwy ddogfen hyn yn ystyried gofynion y Cynllun yn llwyr.
- 4.1.2 Mae holl bapur ysgrifennu'r Cyngor yn cynnwys gwybodaeth safonol ddwyieithog gyda'i deitl fel a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot County Borough Council

- 4.1.3 Mae'r Cyngor yn ymroddedig i barhau â'r arfer hwn. Mae'r arddull gorfforaethol a dwyieithog hon ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall i'w gweld ar arwyddion adeiladau, hysbysiadau parhaol, arwyddion cerbydau, cyhoeddiadau a deunyddiau tebyg eraill i'w harddangos.
- 4.1.4 Wrth gyflawni gwaith mewn meysydd megis cyhoeddi, argraffu, marchnata, cyhoeddusrwydd a hysbysebu, rhaid cyfeirio at yr adran hon o'r Cynllun a chaniatáu digon o amser ar gyfer cyfieithu a dylunio o fewn yr amserlen.
- 4.1.5 Mae Uned Gyfieithu'r Cyngor yn San Helen yn darparu gwasanaeth cyfieithu mewnol. I dderbyn manylion costau cyfieithu, cysylltwch â'r Uned Gyfieithu.

4.2 Arwyddion

- 4.2.1 Mae'r Cyngor wedi gweithredu polisi dwyieithog ar gyfer ei holl arwyddion ers iddo ddod yn awdurdod unedol. Gweithredir y polisi hwn bob tro y mae angen ailosod neu adnewyddu arwyddion. Darperir arwyddion dwyieithog cyflawn o fewn eiddo'r Cyngor, gan gynnwys manau mewnol y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt.
- 4.2.2 Bydd yr arwyddion, rhai dwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn gyfartal o ran fformat, maint ac amlygrwydd.
- 4.2.3 Bydd arwyddion cerbydau yn ddwyieithog boed yn gerbyd y Cyngor neu'n cael ei rentu ganddo.
- 4.2.4 Wrth amnewid arwyddion stryd Saesneg, bydd arwyddion stryd dwyieithog yn cael eu hailosod os oes cyfieithiad addas ar gael.
- 4.2.5 Bydd arwyddion a marciau ffordd traffig ar briffyrdd a heolydd, gan gynnwys y rheiny mewn meysydd parcio cyhoeddus, arwyddion sy'n rhoi cyfeiriadau a gwybodaeth, yn cael eu gosod yn ddwyieithog yn ystod rhaglen cynnal a chadw a gwella arferol y Cyngor os nad ydynt yn ddwyieithog yn barod.
- 4.2.6 Hyrwyddir mabwysiadu enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, strydoedd, enwau llefydd a lleoliadau daearyddol (gan gynnwys ymgynghori â Chynghorau Cymuned / Tref lle y bo angen). Er hynny, os

bydd enw Saesneg yn cael ei fabwysiadu, bydd yr arwyddion yn ddwyieithog.

- 4.2.7 Lle y bo'n briodol, bydd y Cyngor yn cysylltu â gwasanaeth ymgynghori enwau lleoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg am gyngor ynghylch safoni enwau lleoedd.
- 4.2.8 O bryd i'w gilydd mae angen arwyddion dros dro/byr dymor, ac yh yr amgylchiadau hynny bydd arwyddion o'r fath yn ddwyieithog.
- 4.2.9 Os yw sillafiad enwau ychydig yn wahanol yn Saesneg ac yn Gymraeg, a bod yr enw gwreiddiol yn Gymraeg, cedwir y fersiwn Gymraeg fel yr unig ffurf o'i sillafu ar arwyddion yn gyffredinol.

4.3 Cyhoeddiadau a Argraffir

- 4.3.1 Cynhyrchir cyhoeddiadau'r Cyngor a argraffir yn bennaf at sylw'r cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd y Cyngor yn parhau â'r polisi hwn. Mae'n bosib y caiff cyhoeddiadau technegol manwl eu cyhoeddi'n Saesneg yn unig. Mewn achosion lle mae dogfen o ddiddordeb eang i'r cyhoedd, neu yn delio â mater lleol o bwys, darperir fersiwn ddwyieithog neu grynoded yn Gymraeg.
- 4.3.2 Os codir tâl am gyhoeddiad dwyieithog ni fydd y tâl hwnnw yn fwy na'r tâl am ddogfen gyfatebol uniaith Saesneg, neu uniaith Gymraeg.
- 4.3.3 Bydd cyhoeddiadau a argraffir nad ydynt at sylw'r cyhoedd yn bennaf, ond a allai fod o ddiddordeb i aelodau unigol o'r cyhoedd, yn cael eu cyhoeddi fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Pan fydd hyn yn digwydd gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd. Bydd unrhyw gostau yr un fath ar gyfer y ddwy fersiwn o hyd.
- 4.3.4 Mae cyhoeddiadau'n cynnwys pamffledi, llyfrynnau, cylchlythyrau, tystysgrifau a phosteri.
- 4.3.5 Cyhoeddir deddfau lleol a rheoliadau sy'n effeithio'n benodol ar Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn ddwyieithog. Cyhoeddir y rheiny nad ydynt yn cael effaith ar y Cynllun yn Saesneg yn unig.
- 4.3.6 Mae'n bosib y cynhyrchir rhai cyhoeddiadau yn lleol ar gyfer ardaloedd penodol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Er bydd cyd-destun dwyieithog ganddynt, ceir amrywiaeth yn ôl anghenion yr ardal dan sylw.

Penderfynir hyn yn ôl y cynnwys, natur y gynulleidfa darged, y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a'r nifer o bobl yr ymgynghorir â nhw.

- 4.3.7 Gall gweithwyr ac eraill, gan gynnwys y rheiny a gonaethir i gynhyrchu cyhoeddiadau ar ran y Cyngor, dderbyn arweiniad pellach ar oblygiadau'r adran hon o'r Cynllun gan y Tîm Strategaethau Corfforaethol.
- 4.3.8 Bydd gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp neu ar ddisg ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gais.

4.4 Ffurflenni a Deunydd Darllen Cysylltiedig

- 4.4.1 O reidrwydd, mae ffurflenni yn hollbwysig i waith pob un o gyfarwyddiaethau'r Cyngor. Fel arfer ceir nodiadau sy'n egluro neu yn rhoi cyfarwyddiadau gyda ffurflenni. Mae'r Cyngor eisoes wedi derbyn yr egwyddor ddwyieithog ar gyfer ffurflenni i'r cyhoedd.
- 4.4.2 Bydd yr holl ffurflenni a deunydd cysylltiedig sydd at ddefnydd y cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd unrhyw ddatblygiadau i gyflwyno ffurflenni electronig yn sicrhau cydraddoldeb i'r iaith Gymraeg.
- 4.4.3 Lle nad yw hyn yn ymarferol am ba reswm bynnag, bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar wahân. Byddant ar gael ar yr un pryd ac yn gyfartal o ran amlygrwydd.
- 4.4.4 Bydd ffurflenni a dosberthir yn Gymraeg yn cynnwys neges sy'n dweud eu bod ar gael yn Saesneg. Mae'r gwrthwyneb yn wir o ran ffurflenni uniaith Saesneg.
- 4.4.5 Dylid ystyried cynnwys cwestiwn mewn ffurflenni cychwynnol neu ffurflenni cais yn gofyn am ddewis iaith.
- 4.4.6 Os gwyddys dewis iaith person neu sefydliad yna dosberthir y fersiwn briodol iddynt.
- 4.4.7 I'r diben hwn, disgwylir i gyfarwyddiaethau lunio a chadw cofrestr dewis iaith lle bo hyn yn ymarferol ac yn bosibl. Dylid hefyd gyfeirio at y Cyfeirlyfr Cyhoeddus o Ohebwy'r Cymraeg ar y mewnwyd.

4.5 Gwybodaeth i'r Cyfryngau

- 4.5.1 Daw llif sylweddol a chyson o wybodaeth o Dîm Cyfathrebu a Marchnata'r Cyngor a chan bob cyfarwyddiaeth. Lle y bo'n briodol (h.y.

os gwyddys beth yw'r dewis iaith), dosberthir gwybodaeth i'r cyfryngau yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig. Cymerir y camau dilynol i gyflawni'r gwasanaeth hwn.

- 4.5.2 Bydd y Tîm Cyfathrebu a Marchnata a'r holl gyfarwyddiaethau, os yw'n angenrheidiol, yn defnyddio gwasanaethau cyfieithydd allanol a all ddarparu cyfieithiadau o ansawdd uchel. Am ragor o fanylion cyfeiriwch at yr adran "Sefydlu'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau yn Gymraeg".
- 4.5.3 Gwneir trefniadau i siaradwyr Cymraeg fod ar gael lle bo'n bosibl i gynnal cyfweiliadau â'r cyfryngau.
- 4.5.4 Dosberthir gwybodaeth yn Gymraeg i'r cyfryngau Cymraeg.
- 4.5.5 Weithiau bydd yn amhosibl trefnu'r gwasanaeth cyfieithu os oes angen darparu'r wybodaeth ar frys. Os yw'r wybodaeth o les i'r cyhoedd, bydd hi'n cael ei chyfieithu yn nes ymlaen a'i dosbarthu i'r cyfryngau Cymraeg. Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r datganiadau i'r wasg ar gael ar ein gwefan.

4.6 Cyhoeddusrwydd, Arddangosiadau ac Arolygon

- 4.6.1 Mae'r Cyngor a'i gyfarwyddiaethau yn trefnu cyhoeddusrwydd, arddangosiadau ac arddangosfeydd fel rhan o'i raglen wybodaeth i'r cyhoedd.
- 4.6.2 Pan gynhelir y gweithgareddau hyn gan y Cyngor neu yn enw'r Cyngor, bydd teitlau a phenawdau ar gyfer arddangosfeydd ac arddangosiadau, yn ddwyieithog bob tro. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gynhyrchu deunyddiau arddangos eraill. Fodd bynnag, gall arddangosiadau gynnwys deunydd darllen gan sefydliadau eraill nad ydynt ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 4.6.3 Gwneir teitlau a phenawdau a ddefnyddir eisoes yn ddwyieithog wrth iddynt gael eu hadnewyddu yn ôl yr angen.
- 4.6.4 Pan fydd y Cyngor yn cynnal unrhyw ymgyrch hysbysebu, hyrwyddo neu farchnata, bydd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg. Gwneir trefniadau yn ôl y pwnc, y deunydd a'r dulliau i'w defnyddio ynghyd â'r gynulleidfa darged.

- 4.6.5 Cynhelir arolygon barn cyhoeddus yn ddwyieithog ar ôl ystyried y boblogaeth y mae angen ei holi, natur yr arolwg a'r deunydd dwyieithog sydd ar gael.
- 4.6.6 O dro i dro mae'r Cyngor yn caniatáu i sefydliadau eraill, yn enwedig y rheiny yn y sector gwirfoddol, drefnu arddangosfeydd yn ei adeiladau. Hysbysir sefydliadau o'r Cynllun hwn a byddant yn cael eu hannog i ddefnyddio deunyddiau dwyieithog.
- 4.6.7 Darperir canllawiau i weithwyr parthed y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer gweithgareddau cyhoeddusrwydd.
- 4.6.8 Cyfeirir at yr adran "Hysbysebion" (nid recriwtio).

4.7 Hysbysiadau a Hysbysebion Cyhoeddus a Swyddogol

- 4.7.1 Rhoddir hysbysiadau a hysbysebion gan y Cyngor mewn papurau newyddion, cyfnodolion neu gylchgronau am resymau statudol ac anstatudol. Mae recriwtio gweithwyr hefyd yn rhan bwysig o waith hysbysebu'r Cyngor.
- 4.7.2 Yn holl hysbysebion y Cyngor, bydd gwybodaeth sylfaenol megis teitl y Cyngor, a'r gyfarwyddiaeth neu'r gwasanaeth sy'n gosod yr hysbyseb yn cael ei harddangos yn ddwyieithog fel y safon ofynnol.
- 4.7.3 Cyhoeddir hysbysiadau anstatudol yn ddwyieithog. Sut bynnag, os yw'r hysbysiadau yn cynnwys manylion cymhleth a manwl, sydd efallai'n dechnegol iawn, byddant yn cael eu cyhoeddi fel arfer yn Saesneg. Lle mae enwau lleoedd neu enwau strydoedd yn cael eu defnyddio, defnyddir yr enwau yn y ddwy iaith lle bynnag y maent yn bodoli.

Hysbysiadau Cyhoeddus/Statudol

- 4.7.4 Bydd hysbysiad yn ddwyieithog os yw'n berthnasol i'r Fwrdeistref Sirol gyfan neu i ardal lle y mae'r mwyafrif o drigolion yn siarad Cymraeg. Os yw'n berthnasol i ardaloedd eraill, bydd yr iaith (ieithoedd) a ddefnyddir yn dibynnu ar yr ardal dan sylw.

Hysbysebion (nid recriwtio)

- 4.7.5 Bydd yr holl hysbysebion a roddir yn y cyfryngau Cymraeg yn ddwyieithog.

Bydd hysbysebion a roddir yn y cyfryngau Saesneg yn yr iaith Saesneg gyda chyfeiriad (yn Gymraeg) at y Cynllun Iaith Gymraeg.

- 4.7.6 Ystyrir defnydd priodol o weisg iaith Gymraeg megis Y Cymro, Golwg a phapurau bro wrth hysbysebu.

Hysbysebion Recriwtio

- 4.7.7 (a) Os yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn hanfodol, bydd yr hysbyseb recriwtio yn Gymraeg yn unig gydag esboniad byr yn Saesneg.

Sylwer: Lle yr ymdrechwyd yn rhesymol i recriwtio Cymry Cymraeg ond bu hynny'n aflwyddiannus, gellir ystyried y dewis o nodi yn yr hysbyseb nesaf y gallai ymgeiswyr di-Gymraeg wneud cais ar yr amod eu bod yn ymroi i ddysgu'r iaith (hyd at lefel benodol o allu) o fewn 24* neu 36* mis (dileer fel sy'n briodol) wedi dechrau'r swydd. Dylid addasu'r fanyleb person yn unol â hynny.

- 4.7.8 (b) Os yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn ddymunol bydd yr hysbyseb yn ddwyieithog.

- 4.7.9 (c) Os nad oes angen siarad Cymraeg, rhoddir hysbysebion yn Saesneg gydag esboniad byr a datganiad yn Gymraeg o'r ymrwymiad i'r Cynllun Iaith Gymraeg.

5. GWEITHREDU'R CYNLLUN A MONITRO CYNNYDD

5.1 Gwybodaeth Gyffredinol

- 5.1.1 Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser y gall y Cyngor ddarparu ei wasanaethau yn Gymraeg hyd at safon uchel, yn effeithiol ac yn effeithlon, bydd yn mabwysiadu strategaeth sgiliau ieithyddol fel rhan o'i gynllunio adnoddau dynol. Bydd y strategaeth hon yn galluogi'r Cyngor i gynnal trosolwg o'i anghenion sgiliau ieithyddol a'i adnoddau, a chydlynu sesiynau hyfforddi a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y camau sy'n dilyn yn adrannau 5.2, 5.3, 5.4 a 5.5 yn ffurfio rhan o'r strategaeth honno.

5.2 Staffio

- 5.2.1 Mae'r Cyngor yn benderfynol o ddarparu gwasanaethau sy'n effeithlon ac o ansawdd da i'w drigolion sy'n siarad Cymraeg. I gyflawni hyn

cydnabyddir yr angen am ddarparu nifer priodol o weithwyr sy'n siarad Cymraeg sydd wedi eu lleoli yn strategol.

- 5.2.2 Fel y dywedwyd eisoes mae patrwm amrywiol o siaradwyr Cymraeg o fewn ffiniau'r Fwrdeistref Sirol a bydd angen ystyried hyn wrth asesu lleoli gweithwyr wrth roi'r Cynllun hwn ar waith. Gellir dweud y dylid rhoi blaenoriaeth i leoli gweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hynny lle y mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan y rhan fwyaf o drigolion.
- 5.2.3 Sut bynnag, mae ffactorau eraill sy'n dangos yr angen am fwy o siaradwyr Cymraeg ym mhrif swyddfeydd a mannau gweithio'r Cyngor. Mae'r rhain yn bennaf yn ymwneud â chyswllt a geir gyda'r cyhoedd drwy alwadau ffôn, gohebiaeth, ymweliadau personol a chyfarfodydd.
- 5.2.4 Cydnabyddir hefyd fod y galw am wasanaethau yn y Gymraeg yn debygol o gynyddu wrth iddynt ddod yn fwy hysbys ac wrth i'w hargaeledd gynyddu.
- 5.2.5 Wrth gofio hyn, mae'r Cyngor yn bwriadu: -
- Sicrhau yn gyntaf, y bydd gan y swyddfeydd a'r mannau gweithio hynny sy'n delio â'r cyhoedd ddigonedd o weithwyr wrth law sy'n siarad Cymraeg.
 - Archwilio ei wasanaethau a'u perthynas â'r cyhoedd. Trwy hyn bydd y Cyngor yn canfod y swyddi hynny lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn hanfodol ac yn ddymunol. Yna gall y gofynion hyn gael eu cynnwys mewn hysbysebion recriwtio a disgrifiadau swydd.
 - Sefydlu meini prawf ar gyfer ateb y gofynion hyn. Bydd y rhain yn cynnwys:
 - Natur y swydd a pha mor aml y ceir cyswllt â siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys swyddi a chanddynt gysylltiad â'r cyhoedd a'r rheiny sy'n darparu cymorth i'r swyddi hynny.
 - Gallu cyfredol yr uned, y swyddfa, y tîm neu'r adran i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - Yr arbenigedd y mae ei angen ar gyfer y swydd, h.y. efallai y byddai sgiliau Cymraeg yn allweddol mewn rhai meysydd gwaith, er enghraifft wrth ddelio â phobl hŷn neu ifanc.
 - Os yw'r swydd o fewn ardal benodol, yna asesir natur ieithyddol yr ardal.

- 5.2.6 Mae'r Uned Personél Strategol wedi llunio canllawiau ar gyfer rhoi gofynion staffio'r Cynllun ar waith a byddant ar gael ar y mewnwyd.
- 5.2.7 Cynnal arolygon i ganfod y nifer o weithwyr sy'n medru'r Gymraeg, lefel eu gallu a'u lleoliad. Bydd yr arolygon hefyd yn darparu asesiad o anghenion hyfforddi.
- 5.2.8 Sicrhau, pan fo'r Cyngor yn meddwl bod hynny'n addas, y gwneir ymdrechion i recriwtio gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i'r swyddi hynny a nodwyd h.y. hanfodol/dymunol pan fo swydd wag yn codi o ganlyniad i ymddeoliadau neu ymddiswyddiadau neu wrth i swydd newydd gael ei chreu.
- 5.2.9 Darparu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg drwy ad-drefnu dyletswyddau, cyfrifoldebau ac adleoli arferol.
- 5.2.10 Darparu hyfforddiant yn y Gymraeg i weithwyr sy'n ddechreuwyd neu'n ddysgwyr profiadol.
- 5.2.11 Annog gweithwyr i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ac i newid eu harferion gwaith yn rhesymol i hwyluso cyflawni a gweithredu'r Cynllun hwn yn effeithiol. Ni fydd unrhyw elfen o orfodaeth ar ran y Cyngor i weithwyr wneud mwy na hyn.

5.3 Recriwtio

- 5.3.1 Er mwyn sicrhau y gellir bodloni gofynion y Cynllun hwn, bydd Penaethiaid Gwasanaeth a'u Huwch Swyddogion yn ystyried anghenion ieithyddol y gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Wrth wneud hyn gallant sefydlu rhaglen recriwtio sy'n addas i anghenion unigol eu hadrannau. Paratowyd canllawiau cyffredinol i'w cefnogi yn y broses hon a byddant ar gael ar y mewnwyd.
- 5.3.2 Mae'r Cyngor yn bwriadu:
- Y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried fel sgil ochr yn ochr â sgiliau eraill sy'n angenrheidiol i lenwi swyddi gwag.
 - Bydd rhaid ystyried yn fanwl yr angen am sgiliau llafar neu ysgrifenedig yn Gymraeg wrth benderfynu ar ddisgrifiadau swydd a manylebau swydd. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cyngor yn ystyried a fydd sgiliau Cymraeg naill ai yn 'Hanfodol' neu'n 'Dymunol'.

5.4 Hyfforddiant yn y Gymraeg

5.4.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau llwyddiant y Cynllun hwn. Mae'n cydnabod felly bwysigrwydd hyfforddiant yn y Gymraeg i'w weithwyr. Mae'n cydnabod hefyd y bydd angen blaenoriaethu'r hyfforddiant i sicrhau bod y gweithwyr hynny yn y rheng flaen sy'n delio â'r trigolion hynny yn y Fwrdeistref Sirol sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, yn cael eu hyfforddi i fod yn hyderus wrth siarad yr iaith. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr yn y rheng flaen e.e. y rheiny sy'n gweithio mewn cartrefi preswyl lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf i lawer o'r preswylwyr. Mae'n berthnasol hefyd i weithwyr y mae angen iddynt ymateb yn rheolaidd ar lafar ac yn ysgrifenedig i geisiadau, ymholiadau, sylwadau a chwynion.

Sylwer: Fel y disgrifiwyd yn Adran 5.2.11, er y bydd gweithwyr yn cael eu hannog i ymgymryd â lefel briodol o hyfforddiant, ni roddir gorfodaeth na phwysau arnynt i wneud hynny.

5.4.2 Yn gyntaf, bydd y Cyngor yn trefnu hyfforddiant ar dair lefel:

5.4.3 Cwrs i ddechreuwyr pur a fydd yn rhoi patrymau sylfaenol yr iaith i weithwyr, gan eu galluogi i gyfarch a defnyddio ymadroddion pob dydd eraill.

5.4.4 Yr ail lefel fydd cwrs Gwella sy'n ymestyn y cwrs sylfaenol, yn gwella geirfa, creu brawddegau a chynyddu hyder i gynnal sgwrs.

5.4.5 Cynigir cyrsiau dwys ac uwch i'r rheiny sy'n siarad Cymraeg yn eithaf rhugl ac i Gymry sydd am ysgrifennu llythyrau ac adroddiadau yn Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

5.4.6 Cynhelir cyrsiau 'yn fewnol' a gwneir trefniadau i ddysgwyr gael eu hasesu ar gyfer cymwysterau NVQ yn Gymraeg.

5.4.7 Ar hyn o bryd mae'r cyrsiau mae'r Cyngor yn eu cynnig i'w weithwyr h.y. y cyrsiau a ddarperir gan Goleg Castell-nedd Port Talbot, yn darparu'r cymwysterau a ganlyn:

- Mae myfyrwyr blynyddoedd 1 a 2 yn ennill 9 credyd y flwyddyn ar Lefel 1 achrediad RhCA (RhCA = Rhwydwaith Coleg Agored).

- Mae myfyrwyr blynyddoedd 3 a 4 yn ennill 9 credyd y flwyddyn ar Lefel 2 achrediad RhCA.

5.4.8 Bydd gweithwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu hannog i'w defnyddio ar bob achlysur heb iddynt gael eu rhwystro gan ddiffyg hyder neu ymarfer.

5.4.9 Bydd y Cyngor yn rhoi amser ar gyfer hyfforddiant yn amodol ar ymrwymiad ysgrifenedig gan yr hyfforddai i gyflawni'r hyfforddiant cyfan.

5.5 Hyfforddiant Galwedigaethol yn y Gymraeg

5.5.1 Mae gan bob cyfarwyddiaeth ei hanghenion ei hun ar gyfer sgiliau arbenigol. Bydd y Cyngor yn asesu a oes angen i weithwyr ddefnyddio'r sgiliau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn nodi siaradwyr Cymraeg a fydd yn elwa o hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn eu meysydd eu hunain er mwyn iddynt gynnig gwasanaeth o ansawdd da yn Gymraeg.

5.6 Gweinyddu'r Cynllun

5.6.1 Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 27 Medi 1996. Dyma'r ail dro i'r Cynllun gael ei adolygu ac fe'i gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Mehefin 2007 gan dderbyn awdurdod llawn y Cyngor.

5.6.2 Bydd gwaith gweinyddu'r Cynllun yn derbyn cefnogaeth Grŵp Swyddogion yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o gyfarwyddiaethau'r Cyngor. Bydd cofnodion cyfarfodydd y Grŵp hwn yn cael eu cyflwyno i dimau rheoli'r cyfarwyddiaethau ac i gyfarfodydd Grŵp Cydraddoldeb y Penaethiaid Gwasanaeth maes o law.

5.6.3 Bydd Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau y Cyngor a Bwrdd y Cabinet yn gyfrifol am adolygu'r Cynllun a monitro'i weithredu'n rheolaidd. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am adrodd yn ôl i'w Pwyllgorau Craffu a'u Byrddau Cabinet perthnasol parthed cydymffurfiaeth â'r Cynllun bob chwe mis (fel y nodir yn adrannau 5.7.4 a 5.7.5 isod).

5.7 Cyfrifoldebau

5.7.1 Yr Uwch Swyddog Gweithredu sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei roi ar waith ar draws y Cyngor yw:

Karen Devereux
Rheolwr Strategaethau Corfforaethol
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot SA13 1PJ

- 5.7.2 Bydd yr Uwch Swyddog Gweithredu yn cynghori'r Penaethiaid Gwasanaeth ynghylch y camau i'w gweithredu i gyflawni'r Cynllun o fewn pob gwasanaeth a ddarperir.
- 5.7.3 Bydd yr Uwch Swyddog Gweithredu yn gyfrifol am gydlynw gweithrediad y Cynllun yn gorfforaethol a gwerthuso perfformiad y Cyngor wrth iddo gyflwyno gofynion y Cynllun. Bydd yr Uwch Swyddog Gweithredu hefyd yn gyfrifol am adrodd ar y cynnydd a wneir ar y materion hyn i'r Cyngor drwy'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a Bwrdd y Cabinet.
- 5.7.4 Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o fewn eu cyfarwyddiaethau eu hunain ac am adrodd yn ôl i'w Pwyllgorau Craffu a'u Byrddau Cabinet perthnasol bob chwe mis. Disgwylir iddynt enwebu Uwch Swyddog i fod â chyfrifoldeb rheoli o fewn y gyfarwyddiaeth.
- 5.7.5 Yn rhan o'r cyfrifoldeb a ddisgrifir yn 5.7.4 uchod, bydd angen i bob cyfarwyddiaeth baratoi Cynllun Gweithredu (i'w adolygu bob chwe mis) yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd angen eu cyflawni i sicrhau bod gofynion y Cynllun yn cael eu rhoi ar waith, ynghyd â dyddiadau targed i gwblhau'r camau gweithredu hyn. Bydd y Cynlluniau Gweithredu yn sylfaen i'r broses adrodd yn ôl fel y disgrifir yn adran 5.7.4.
- 5.7.6 Bydd gweithwyr yn derbyn arweiniad ar natur a diben y Cynllun. Bydd hefyd yn cynnwys cyngor parthed gwasanaethau cyfieithu a sut y gall gweithwyr Cymraeg a di-Gymraeg gynorthwyo'r cyhoedd i gael gwasanaeth da. Efallai bydd angen i bob cyfarwyddiaeth ddatblygu ei chanllawiau mewnol ei hun ar gymhwyso'r Cynllun i feysydd gwaith penodol lle y mae trefniadau pendant yn bodoli i ddelio â chleientiaid.
- 5.7.7 Trefnir cyfarfodydd briffio ar gyfer gweithwyr y gyfarwyddiaeth yn ôl y galw neu ar gais.

5.8 Monitro

- 5.8.1 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o bwysigrwydd monitro'r Cynllun hwn yn fanwl er mwyn pwysu a mesur sut y mae'n cyflawni ymrwymadau a wnaed ganddo.
- 5.8.2 I gyflawni hyn, bydd yn darparu system fonitro ar gyfer y Cynllun, a fydd yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau mewn fformat caeth a dilysu a gwerthuso o hirbell gan adrannau, yn ogystal ag ymgynghori â defnyddwyr parthed ansawdd y gwasanaeth o dro i dro.
- 5.8.3 Bydd unrhyw gwynion parthed Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn cael eu monitro. Mae'r Cyngor wedi enwebu Karen Devereux, Rheolwr Strategaethau Corfforaethol fel ei Swyddog Monitro gyda chyfrifoldeb am adolygu a monitro'r Cynllun hwn. Bydd yn gwneud trefniadau i gynnwys y Cynllun o fewn y gweithdrefnau sydd gan y Cyngor i fonitro ei holl wasanaethau.
- 5.8.4 I grynhoi, dyma sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro:
- Bydd cynlluniau gweithredu corfforaethol a chyfarwyddiaethol y Cynllun yn cael eu cynhyrchu o hyd, fel y gellir monitro cynnydd wrth roi'r Cynllun ar waith. Bydd Grŵp Cydraddoldeb y Penaethiaid Gwasanaeth hefyd yn goruchwylio'r broses o roi'r cynllun gweithredu corfforaethol ar waith.
 - Bydd adroddiadau Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion corfforaethol ac adrannol yn parhau i gael eu cynhyrchu ar gyfer craffu, fel y gellir amlygu unrhyw sylwadau etc ynghylch y Cynllun.
 - Mae Arweiniad Fframwaith Cynllunio Busnes y Cyngor yn gofyn bod rheolwyr yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb, gan gynnwys gofynion iaith cynlluniau busnes, a fydd yn destun craffu.
 - Bydd cynnydd wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol gan yr holl sefydliadau partner yn cael ei drafod mewn adroddiad cynnydd blynyddol ac yn cael ei ystyried gan Bartneriaeth y Cynllun Cymunedol.
- 5.8.5 Bydd pob un o'r uchod, ynghyd â chasglu data ar gyfer mesur dangosyddion perfformiad y Cynllun, yn bwydo'r adroddiad monitro blynyddol a fydd yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad a chynllun gweithredu'r flwyddyn ddilynol ar gyfer delio ag unrhyw wendid a

nodwyd. Rhoddir copi o'r adroddiad hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Gall y cyhoedd weld copi o'r adroddiad ym mhrif swyddfeydd y Cyngor ac ar ei wefan. Bydd Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2007/08 hefyd yn cynnwys data ar ddangosyddion y Cynllun, ynghyd â throsolwg o gynnydd a syniad o gamau gweithredu'r dyfodol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hailadrodd yn y Cynllun Gwella wedi hynny.

5.8.6 Bydd yr adroddiad monitro blynyddol yn diwallu nodau penodol y Bwrdd fel a nodwyd yn arweiniad atodol y Bwrdd.

5.8.7 Bydd y Cyngor yn cydweithredu ag unrhyw arolygiadau y dymuna'r Bwrdd eu cynnal a bydd yn rhoi'r argymhellion ar waith lle bônt yn berthnasol.

5.9 Ymchwiliadau o dan Adran 17

5.9.1 Os oes gofyn i'r Bwrdd gyflawni ymchwiliad o dan Adran 17 y Ddeddf, bydd y Cyngor yn barod i gydweithredu'n llawn drwy ddarparu adroddiadau gwybodaeth, dogfennau neu eglurhad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.10 Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

5.10.1 Bydd unrhyw sylwadau neu gwynion parthed y Cynllun Iaith Gymraeg yn derbyn sylw drwy Weithdrefn Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion y Cyngor a'i Weithdrefn Gwynion. Mae llyfrynnau esboniadol dwyieithog ar gael yn swyddfeydd a manau gweithio'r Cyngor.

5.10.2 Croesewir sylwadau gan y cyhoedd a dylid eu cyfeirio at y gyfarwyddiaeth berthnasol fel a nodir yn y Llyfryn Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion.

5.10.3 Lle na ellir delio â chwynion yn y fan a'r lle, byddant yn cael eu cydnabod a bydd ymateb llawn yn cael ei ddarparu naill ai o fewn deng neu ugain niwrnod gwaith. Lle na ellir darparu ymateb llawn o fewn y raddfa amser benodedig, bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu ac yn derbyn syniad o bryd y darperir ymateb.

5.11 Cyhoeddi'r Cynllun

5.11.1 Bydd y Cyngor yn trefnu ymgyrch gyhoeddusrwydd barhaol i hysbysu'r bobl y mae'n eu gwasanaethu am y Cynllun. Bydd yr Uwch Swyddog Gweithredu yn cydlynu'r ymgyrch.

- 5.11.2 Bydd yr ymgyrch gyhoedduswydd yn esbonio cwmpas a bwriad y Cynllun gan fanylu i ba raddau y gall y cyhoedd ddelio â'r Cyngor yn Gymraeg yn ogystal â rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg ac ymhle a phryd y maent ar gael.
- 5.11.3 Bydd y Cynllun hefyd yn derbyn cyhoedduswydd drwy gyhoeddiadau'r Cyngor ac ar ei wefan.
- 5.11.4 Hysbysir gweithwyr drwy'r Bwletin i Weithwyr a dosberthir canllawiau hefyd i weithwyr i'w cynorthwyo wrth roi'r Cynllun ar waith.
- 5.11.5 Bydd y canllawiau hefyd ar gael i asiantau a chontractwyr sy'n cyflwyno gwasanaethau ar ran y Cyngor.

5.12 Gwybodaeth am Berfformiad

- 5.12.1 Bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth am ei berfformiad o ran yr ymrwymadau a'r camau a wnaed yn y Cynllun hwn. Bydd yr wybodaeth sy'n dilyn yn cael ei chynnwys yn adroddiad y Cyngor ar gyflwyno gwasanaethau.

Dangosyddion Perfformiad

Rhif y Dangosydd	Disgrifiad
L(WL)3	(e) Cynyddu ymwybyddiaeth - Canran y gweithwyr sydd wedi'u hatgoffa parthed gofynion y Cynllun.
L(WL)4	Canran y galwadau gan siaradwyr Cymraeg a gynhaliwyd yn llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg.
L(WL)5	(a) Canran y cyfarfodydd cyhoeddus lle y cafodd dewis iaith ei gynnig a'i sefydlu cyn y cyfarfod (b) Canran y cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddwyieithog ar ôl derbyn rhybudd ymlaen llaw o'r dewis iaith.
L(WL)6	(a) Canran y cyfarfodydd wyneb yn wyneb lle y sefydlwyd dewis iaith cyn y cyfarfod (b) Canran y cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yn ddwyieithog lle roedd dewis iaith yn hysbys.
L(WL)7	(a) Canran y posteri/taflenni cyhoeddusrwydd ac ati a arddangosir yn ddwyieithog. (b) Canran y posteri/taflenni cyhoeddusrwydd ac ati a gynhyrchir mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. (c) Canran y fersiynau Cymraeg sydd yn (b) uchod.
L(WL)9	Canran yr arwyddion dwyieithog ar adeiladau dinesig.
L(WL)10	(a) Canran y ffurflenni safonol a gynhyrchir yn ddwyieithog (b) Canran y ffurflenni safonol a gynhyrchir mewn fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân. (c) Canran y fersiynau Cymraeg sydd yn (b) uchod.
L(WL)11	(b) Canran yr holiaduron (gan gynnwys ymarferion ymgynghori cyhoeddus) a gynhyrchwyd yn ddwyieithog.
L(WL)12	Canran yr holl hysbysiadau swyddogol/cyhoeddus sy'n ddwyieithog.

5.12.2 Dyma'r dangosyddion newydd a gynhyrchwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yr hoffai'r Bwrdd i gynghorau eu mesur ac adrodd arnynt yn eu hadroddiadau monitro blynyddol:

<p>Caffael</p> <p>DIG 1 Nifer a % y sampl o grwpiau eraill a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) o fewn gwasanaethau gofal (ii) o fewn gwasanaethau ieuenctid a hamdden (iii) o fewn darpariaeth cyn ysgol <p><i>Mae'r dangosydd hwn yn canolbwyntio ar weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill, a bydd ei bwysigrwydd yn cynyddu dros amser. Ni fwriedir monitro'r holl gontractau - dim ond y rheiny lle mae safon y gwasanaeth yn dibynnu'n bennaf ar iaith.</i></p> <p>Cyhoeddir rhagor o arweiniad.</p>
<p>Gwasanaethau Rheng Flaen</p> <p>DIG 2 Nifer a % y prif dderbynfeydd, canolfannau galwadau neu swyddi mewn siopau dan yr unto sydd wedi cael eu dynodi 'Cymraeg yn hanfodol' ac wedi cael eu llenwi gan staff dwyieithog.</p> <p><i>Mae'r dangosydd hwn yn canolbwyntio ar ofal cwsmeriaid ar bwynt allweddol wrth ryngweithio â'r cyhoedd. Mae diffiniad o brif dderbynfa eisoes wedi cael ei drafod ond mae angen ei fireinio.</i></p>
<p>E-lywodraeth</p> <p>DIG 3 i'w ddatblygu yn 2007</p> <p><i>Maes blaenoriaeth oherwydd y potensial i hwyluso cynnydd sylweddol mewn dewis iaith. Byddai'n fuddiol cysylltu â dangosyddion e-lywodraeth cyfredol yn y maes hwn.</i></p>
<p>Adnoddau Dynol - sgiliau</p> <p>DIG 4 (a) Nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn Gymraeg hyd at lefel gymhwysu benodol.</p> <p><i>Arddangos gallu. Ein bwriad yw nodi achrediad cydnabyddedig.</i></p> <p>(b) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith.</p> <p><i>Mae hyn ymwneud â safon y gwasanaeth.</i></p>

<p>Adnoddau Dynol – Cydraddoldeb ac amrywiaeth</p> <p>DIG 5 Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion)</p> <ul style="list-style-type: none"> - yn ôl adrannau gwasanaethau - yn ôl graddfa swyddi - yn ôl gweithle, swyddfa a chanolfan yn y prif swyddfeydd ardal <p><i>Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â gallu sefydliad i gynnig dewis iaith wrth ddarparu gwasanaeth. Bydd gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar feini prawf hunan ddewis y cyfrifiad.</i></p>
<p>Safon gwasanaethau Cymraeg</p> <p>DIG 6 Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n ymwneud â <u>gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg</u> a'r % y deliwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.</p> <p><i>Safon y gwasanaethau.</i></p>

6. RHOI CYNLLUNIAU GWEITHREDU AR WAITH AC AMSERLEN

6.1 Rhoi'r Cynlluniau Gweithredu ar waith

- 6.1.1 Fel y disgrifiwyd yn adran 5.7, mae cyfarwyddiaethau unigol (Penaethiaid Gwasanaeth yn benodol) yn gyfrifol am weithredu gofynion y Cynllun hwn. Fel rhan o'r gwaith hwn bydd angen paratoi Cynlluniau Gweithredu manwl sy'n cofnodi'r camau y mae'n rhaid eu cyflawni - ynghyd â dyddiadau targed - i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu'n gyflawn. Bydd cynnydd tuag at weithrediad llawn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgorau Craffu a'r Byrddau Cabinet perthnasol bob chwe mis.
- 6.1.2 I sicrhau trosolwg corfforaethol o'r broses rhoi ar waith, bydd adroddiad corfforaethol blynyddol sy'n manylu ar y cynnydd a wneir gan bob cyfarwyddiaeth, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a Bwrdd y Cabinet.

CYNLLUN GWEITHREDU CORFFORAETHOL Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Cam Gweithredu	Swyddog/ Grŵp Cyfrifol	Dyddiad Targed
Cynllunio a Darparu Gwasanaethau		
Paratoi i fonitro nifer a chanran y sampl o grwpiau eraill sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg o fewn (i) gwasanaethau gofal (ii) gwasanaethau ieuencid/hamdden (iii) darpariaeth cyn ysgol. (Dangosydd DIG 1 ByIG).	Rheolwyr Busnes o fewn y Cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai/Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes gyda chefnogaeth y Tîm Strategaethau Corfforaethol a'r Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg.	2008/09
Cwblhau proses Hunanasesu Gwasanaethau Cefnogi Ieuencid Dwyieithog ByIG.	Partneriaeth Pobl Ifanc/Gwasanaethau Ieuencid	Rhagfyr 2007
Monitro gweithredu Fframwaith Asesu Effaith ar Gydraddoldeb y Cyngor ar gyfer polisïau/gwasanaethau newydd a chyfredol, y mae'n ofynnol eu hasesu yn erbyn yr holl elfennau cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg.	Grŵp Cydraddoldeb y Penaethiaid Gwasanaeth/ y Tîm Strategaethau Corfforaethol/ Rheolwyr Busnes	2008/09
Meysydd gwasanaeth i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â grwpiau cydraddoldeb gan gynnwys y Gymraeg, fel a amlygir gan y broses asesu fel rhan o gynllunio busnes a Chynlluniau Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg y cyfarwyddiaethau.	Tîmau Rheoli Adrannol/Rheolwyr Busnes /y Tîm Strategaethau Corfforaethol/ Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg	2008/09
Datblygu ymhellach a chyflwyno'r fframwaith asesu effaith ar gydraddoldeb fel dull gwerthuso ar gyfer y	Y Tîm Strategaethau Corfforaethol/Rheolwr Gwasanaethau i Bwyllgorau ac Aelodau	2008/09

broses adrodd weithredol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrafod.		
--	--	--

ByIG = Bwrdd yr Iaith Gymraeg

CYNLLUN GWEITHREDU CORFFORAETHOL Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Cam Gweithredu	Swyddog/ Grŵp Cyfrifol	Dyddiad Targed
Cynllunio a Darparu Gwasanaethau parhad		
Mewn perthynas â chynorthwyo wrth hybu'r Gymraeg, ystyried Strategaeth Iaith Gymraeg Menter Iaith CNPT, wedi iddi gael ei lansio.	Y Tîm Strategaethau Corfforaethol/Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg	Rhagfyr 2007
Sicrhau bod y gweithdrefnau sy'n ymwneud â chynlluniau grantiau, benthyciadau a noddi'r Cyngor yn cael eu newid os oes angen, yn unol ag arweiniad statudol diweddaraf ByIG ar gyfer y maes hwn.	Timau Rheolwyr Adrannau/Rheolwyr Busnes/y Tîm Strategaethau Corfforaethol/Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg	2008/09
Cyfathrebu â'r Cymry Cymraeg		
Archwiliad llawn o gyfarfodydd cyhoeddus lle cynigiwyd cyfarfodydd Cymraeg/dwyieithog ymlaen llaw a lle cynhaliwyd cyfarfodydd yn ddwyieithog yn dilyn ceisiadau. (DP Iaith Gymraeg Lleol 5a & b)	Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg	2007/08
Monitro cyfansoddiad Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf, Paneli Dinasyddion, Cyngor Pobl Hŷn, Cyngor Ieuenctid, Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du, Grwpiau Cyfranogiad Trigolion a Grwpiau Tenantiaid, i sicrhau bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn cael cyfle i gymryd rhan.	Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf/y Tîm Strategaethau Corfforaethol/Cyngor Ieuenctid a Swyddog Allgymorth/Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid	2008/09
Cytuno ar sut i fesur DIG 3 E-lywodraeth ByIG, wedi i ByIG gyhoeddi rhagor o arweiniad.	Gweithgor Corfforaethol e-Lywodraeth	2008/09

CYNLLUN GWEITHREDU CORFFORAETHOL Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Cam Gweithredu	Swyddog/ Grŵp Cyfrifol	Dyddiad Targed
Delwedd Gorfforaethol a Chyhoeddus y Cyngor		
Yn unol ag argymhelliad 1 yr Adroddiad Archwilio Mewnol (77-2006/2007), sicrhau bod archwiliad llawn yn cael ei gyflawni o fersiynau Saesneg a Chymraeg dwyieithog/ar wahân o gyhoeddiadau'r Cyngor a argraffwyd, sy'n bennaf at ddefnydd y cyhoedd. Cynnwys posteri cyhoeddusrwydd, taflenni, arwyddion adeiladau dinesig, ffurflenni, llythyron safonol, holiaduron a hysbysiadau cyhoeddus etc. (DP Iaith Gymraeg Lleol 7 a, b & c, 9, 10 a, b & c, 11 b & 12)	Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg	2007/08
Gweithredu'r Cynllun a Monitro Cynnydd		
Monitro a sicrhau bod digon o swyddi rheng flaen wedi cael eu dynodi 'Cymraeg yn Hanfodol' ac wedi cael eu llenwi gan weithwyr sy'n ddwyieithog ar gyfer prif dderbynfa/switsfwrdd Canolfan Ddinesig Port Talbot, Siopau Dan yr Unto, y Ganolfan Alwadau newydd (i gynnwys Gwasanaethau'n Gyntaf) a'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau Adeiladau. (ByIG DIG 2)	Rheolwyr Busnes yn y Cyfarwyddiaethau Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, a gefnogir gan aelodau Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg y cyfarwyddiaethau hynny.	2007/08
Adolygu Canllawiau Gweithwyr ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg (gan gynnwys arweiniad ar gyfer ateb y ffôn a sut i ddynodi swyddi) a rhoi	Y Tîm Strategaethau Corfforaethol/Uned Personél Strategol	2007/08

cyhoeddusrwydd i'w hargaeledd.		
--------------------------------	--	--

CYNLLUN GWEITHREDU CORFFORAETHOL Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Cam Gweithredu	Swyddog/ Grŵp Cyfrifol	Dyddiad Targed
Gweithredu'r Cynllun a Monitro Cynnydd parhad		
Gwella argaeledd a dadansoddiadau adroddiadau Gweledigaeth ar gyfer cyfarwyddiaethau, fel bod gwybodaeth ar gael yn haws ynghylch gweithwyr sy'n derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg a nifer y gweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl uned wasanaeth, a graddfa swydd. (ByIG 4 a & b & 5)	Y Tîm Strategaethau Corfforaethol/Uned Personél Strategol	2008/09
Sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi ar gael er mwyn cyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb yn fwy eang i weithwyr gan gynnwys gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg.	Grŵp Cydraddoldebau Penaethiaid Gwasanaeth	2008/09
Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar Waith ac Amserlen		
Cyfarwyddiaethau i addasu Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg eu cyfarwyddiaethau, gan ystyried y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu Corfforaethol diwygiedig.	Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg.	2007/8